**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD A'R PENNAETH GWASANAETHAU CYFREITHIOL A DEMOCRATAIDD**

**Cyhoeddwyd yr Adroddiad o dan adran 21 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (Cyfeirnod yr Achos 201400990)**

## 1 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Rhoi gwybod i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio am adroddiad ymchwiliad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC). Mae'r adroddiad hwn mewn dwy ran. Mae'r rhan gyntaf yn rhoi crynodeb o adroddiad yr ymchwiliad ac yn ddienw. Ail ran yr adroddiad yw Rhan 2 ac mae'n dadansoddi canfyddiadau ac argymhellion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn fwy manwl.

1.2 Mae'r adroddiad crynodeb ynghlwm yn **Atodiad A** yr adroddiad hwn.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae prif fanylion yr achos wedi eu cynnwys yn yr adroddiad Rhan 2. Gan ystyried y ddogfen crynodeb yn **Atodiad A**, fodd bynnag, cyfeirir yr Aelodau at argymhellion a) i e).

## 3. ARGYMHELLION YR OMBWDSMON

3.1 Bydd argymhellion d) ac e), o ystyried natur y rhain, yn cael eu cynnwys yn fwy manwl yn yr adroddiad Rhan 2. Rhoddir sylwadau ar argymhellion a) i c) isod.

3.2 **Argymhelliad a) - mae'r Cyngor yn sicrhau bod ei broses ddilysu yn cael ei diweddaru i sicrhau ei bod yn rhoi ystyriaeth i'r gofynion statudol a nodir yn Erthygl 3 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012.**

Mae'r uchod yn ymwneud â sut y mae Swyddogion yn dilysu ceisiadau cynllunio Amlinellol er mwyn sicrhau y darperir gwybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth uchod.

Mae swyddogion yn dilyn y gweithdrefnau dilysu a amlinellir yn rhestr 2 ar Atodiad A(1), Arweiniad Llywodraeth Cymru. Mae pob Swyddog sy'n dilysu ceisiadau Amlinellol a cheisiadau eraill yn dilyn y canllaw hwn gan sicrhau y darperir manylion perthnasol.

3.3 **Argymhelliad b) – dylai'r Cyngor rannu'r adroddiad hwn gyda'r Pwyllgor Cynllunio a threfnu hyfforddiant ychwanegol ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio sy'n cwmpasu'r methiannau a nodwyd yn yr adroddiad.**

Mae'r adroddiad yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Cynllunio. Bydd un o'r sesiynau "Hyfforddiant i Aelodau ar Faterion Cynllunio" a drefnwyd gan Swyddogion yn cwmpasu'r prif faterion yn adroddiad yr ymchwiliad.

3.4 **Argymhelliad c) - dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cofnodi'n gywir y rhesymau a roddir dros benderfyniadau sy'n groes i gyngor y Swyddogion.**

Bydd yr Aelodau'n nodi yn ystod trafodaeth yn y Pwyllgor Cynllunio fod Swyddogion yn rhoi pwysau ar Aelodau i roi rhesymau manwl pam y maent yn bwriadu mynd yn erbyn argymhelliad y Swyddogion. Bydd swyddogion yn gwirio'r rhesymau hyn gydag Aelodau i sicrhau eglurder cyn eu cofnodi.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Dylai'r Aelodau nodi cynnwys yr adroddiad crynodeb yn **Atodiad A** a'r sylwadau a ddarparwyd ar argymhellion a) i c) uchod.